**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1338
Ein cyf/Our ref LW/00843/23

Jack Sargeant MS
Chair - Petitions committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

10 Mai 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth ar 25 Ebrill ynglŷn â deiseb y mae'r Pwyllgor wedi ei derbyn gan Andrew Jenkins ar gyllid bws yn y dyfodol.

Diolch i gamreoli economaidd Llywodraeth y DU rydyn ni'n wynebu pwysau ariannol digynsail a dewisiadau anodd o ran dyraniadau cyllid.

Fel y gwyddoch, mae'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau (BES) wedi cadw gwasanaethau bws hanfodol i redeg drwy gydol y pandemig. Roedd y cynllun i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2023, ond yn dilyn trafodaethau helaeth, fe wnaethom gyhoeddi ym mis Chwefror y byddai'n cael ei ymestyn am gyfnod trosiannol cychwynnol o dri mis hyd at ddiwedd Mehefin 2023.

Yn dilyn sgyrsiau pellach mae BES wedi cael ei hymestyn am gyfnod pellach o dair wythnos hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd hon, 24 Gorffennaf 2023 [Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a'r Panel Arbenigol ar Fasnachfreinio (31 Mawrth 2023) | LLYW.CYMRU](). Bydd hyn yn golygu y bydd cludiant i ysgolion yn parhau yn ôl yr arfer. Bydd hefyd yn rhoi sefydlogrwydd pellach i'r diwydiant wrth inni weithio ar symud i ffwrdd o gyllid brys i gynllunio rhwydweithiau bysiau sy'n cyfateb yn well i'r patrymau teithio newydd rydyn ni wedi'u gweld ers diwedd y pandemig.

Mae Timau Cynllunio Rhanbarthol wedi'u sefydlu i asesu'r effaith debygol ar ein rhwydweithiau bysiau pan fydd cyllid BES yn dod i ben ar 24 Gorffennaf. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio'n agos gyda'r timau hyn i gynllunio a blaenoriaethu'r gwasanaethau a fydd yn gwasanaethu ein cymunedau orau o fewn y gyllideb a fydd ar gael y tu hwnt i'r pwynt hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi gweld newidiadau parhaol mewn patrymau teithio, lle nad yw nifer y teithwyr wedi gwella.  Rydym wedi cydnabod bod cefnogaeth frys i'r diwydiant wedi bod yn hanfodol, ond yn amlwg bydd angen i'r rhwydwaith newid yn y dyfodol.

Mae gweithio ar y cyd â phartneriaid allweddol yn hanfodol gan ein bod bellach yn ystyried opsiynau i symud i ffwrdd o ddarparu cyllid brys i’r sector bysiau o fewn y cyllidebau sydd ar gael.  Rwyf i a fy swyddogion yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'r diwydiant ac awdurdodau lleol.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn rydym hefyd yn trafod â'r diwydiant bysiau a'u sefydliadau masnach wrth ddatblygu ymgyrch farchnata a fydd yn annog pobl i deithio unwaith eto ar fysiau ac yn hyrwyddo’r manteision o wneud hynny.

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change